

Unigrwydd

Darllen: Marc 4:36

Roedd hi wedi bod yn ddiwrnod hir, a'r dyrfa erbyn hyn yn cynyddu o funud i funud. Pobl o'r pentrefi, yn hen ac ieuanc, yn tyrru i wrando ar yr athro newydd; cyfreithwyr o bob math yn dod i herio'r athro a cheisio'i faglu'n glymau efo'u rhesymeg oeraidd. Ysbïwyr hefyd, wedi'u hanfon gan yr awdurdodau crefyddol i wrando arno ac i adrodd yn ôl. Ac ym mhob tyrfa roedd yna gleifion a phobl ddiffuant ac anghenus. Bellach roedd hi'n hwyrhau, a'r haul yn machlud. Roedd blinder wedi llethu'r dyrfa, a byddai'n rhaid i'r gweddill ddisgwyl am ddiwrnod arall.

Sylweddolodd Iesu fod rhaid i'w ddisgyblion gael gorffwys wedi lludded y dydd. Roedd hi'n bwysig i fynd o olwg y dyrfa. Mae pobl yn barod i dderbyn y cyfan y medrwn ei roi iddyn nhw, gan ddal i ddisgwyl mwy a mwy. Mae gwybod eich bod yn medru diwallu anghenion pobl yn deimlad braf a hunan foddhaus, ond mae'n hynod o beryglus hefyd – fe all chwyddo'r hunan a'n gwneud yn llawn balchder. Mor aml y mae'r geiriau, 'Does dim yn cael ei wneud os nad ydw i yng nghanol y gweithgarwch' yn llercian yn y meddwl. Mor anodd ydi dweud 'Na'. Nid peiriannau ydyn ni, ond mae peiriannau'n gweithio'n well ar ôl cael eu trin. Mae angen ychydig olew o faldod yma ac acw.

Mae rheswm arall dros gefnu ar y dyrfa o dro i dro. Mae daliadau a chredoau'r dyrfa yn aml yn haeddu eu cwestiynu. Efallai nad ydi safonau'r gymdeithas yn rhai y dylen ni anelu atyn nhw. Dydi llesteirio a gwanhau ddim yn rhan o'r bywyd Cristnogol. Nid yw'r hyn y mae'r mwyafrif yn ei ystyried yn dderbyniol yn cyd-fynd bob amser â gwerthoedd Iesu. Er enghraifft, nid yw bywyd heb gariad yn rhan o deyrnas Iesu. Mae Iesu'n rhoi rhyddid i ni i ddod i benderfyniad, sydd heb ei lywio gan y dorf ond gan gariad, trugaredd a thosturi.

Cofiw'n mai'r disgyblion adawodd y dyrfa, nid y dyrfa adawodd y disgyblion. Y disgyblion oedd yr arloeswyr yn symud ymlaen i chwilio am diriogaethau newydd. Pererinion oedden nhw, yn barod i chwalu ffiniau a rhagfuriau. Yn aml iawn, mae'n anodd i ni weld hyn am ein bod yn rhy barod i ddefnyddio ein ffydd fel cysgodfa yn hytrach na symbyliad i fynd ymlaen. Does dim sefyll yn ei unfan ym mywyd y Cristion. Ym mhob oes, mae'r Cristion yn cael ei alw i fynd ymlaen. Mi all fod yn beryglus ac yn fygythiad i'n ffydd, ond mae'n siŵr o roi sbardun a chyffro yn ein bywydau. Mor hawdd yw teimlo fel mochyn cwta'n mynd chwrligwgan ar y felin draed!

Ond mae cyfnod o seibiant yn gwneud lles. Mae'n werth ceisio unigrwydd, ond cofio mai unigrwydd dros dro ydi o. Mae'n gyfle i gyfathrebu a chymuno â Duw, sy'n deall yn iawn beth ydi unigrwydd. Cyfle i ddal cymundeb â Duw ei hun. Yn yr unigrwydd hwn y down i adnabod ein hunain yn well. 'Pwy ydw i? Beth ydi'r gwaith sydd o'm blaen?' Mae'n gyfle i ailfeddwl ac efallai i ailgyfeirio. Mae'n bur debyg na fyddai cymdeithas yn gwegian pe bawn i'n cymryd munud bach i eistedd a meddwl a myfyrio. Ac yn nistawrwydd yr unigedd, efallai y clywaf air Duw yn torri ar fy nghlyw, fel y torrodd ar glyw'r disgyblion gynt – Shalom, yr heddwch sy'n trawsnewid pob dealltwriaeth.

Myfyrdod pellach:

Pa mor hanfodol i'r Cristion ydi profi unigedd?

Beth ydi'r gwahaniaeth rhwng 'unigrwydd' a bod ar eich pen eich hun?